## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun ar Ddydd Mercher, 28ain Hydref 2009 am 09:30am.

### PRESENNOL

**Y Cynghorwyr** J R Bartley, J B Bellis, B Blakeley, J Chamberlain Jones, W L Cowie, J A Davies, J M Davies, M Ll Davies, P A Dobb, M J Eckersley, G C Evans, I A Gunning, D Hannam, C Hughes, T R Hughes, E R Jones, H Ll Jones, G M Kensler, P W Owen, D Owens, A G Pennington, D I Smith, D A J Thomas, S Thomas, J Thompson-Hill, C H Williams.

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Cynllunio Datblygiad, Arweinydd Tîm (Prif Gymwysiadau) Arweinydd Tîm (Cefnogaeth) (G Butler), Swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid (Judith Williams) M Ll Rees (Cyfieithydd), Bill Cook (Priffyrdd)

### DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorwyr N Hughes, Barbara Smith, L M Morris, I W Armstrong, P C Duffy.

**447 MATERION BRYS Dim**

**448 CEISIADAU AM GANIATÂD AR GYFER DATBLYGU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Diogelwch y Cyhoedd (a gylchredwyd ymlaen llaw) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac yr oedd gofyn i'r Pwyllgor benderfynu arnynt.

***PENDERFYNWYD** bod:-*

*(a) Argymhellion y Swyddogion, fel y'u cyflwynwyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd, yn cael eu cadarnhau a bod caniatâd neu wrthodiad yn ôl yr achos, yn cael ei roi fel sy'n briodol o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad a Ganiateir yn Gyffredinol) 1995, Deddf Iawndal a Chynllunio, 1991, Rheoliadau Hysbysebu Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), 1990 yn achos y datblygiad a gynigir gan y cynlluniau canlynol yn atebol i'r amodau a restrir yn yr atodiad a gyflwynir yma:-*

(i) Caniatâd

| Rhif Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 23/2009/1203/PF | Yn dilyn ystyriaeth i un llythyr sylwadau ychwanegol oddi wrth Gyngor Cymuned Llanrhaeadr YC<br>Dymchwel y toiled presennol a'r tŷ allan cysylltiedig â chodi estyniad deulawr gyda tho ar oleddf ar ochr yr anheddle<br>**Pen y Gerddi Peniel Dinbych**<br>**CANIATÂD**<br>**AMODAU YCHWANEGOL**<br>**AMOD CYN-GYCHWYN 2**<br>Ni chaniateir i unrhyw ddatblygiad gychwyn nes bydd sêl bendith ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio lleol wedi ei dderbyn ar y deunyddiau sydd i'w defnyddio ar wynebau allanol waliau'r annedd bresennol a'r ychwanegiadau, ac i union safle waliau pen gorllewinol a dwyreiniol yr estyniad mewn perthynas â wal yr annedd bresennol.<br>Rheswm: Er budd amwyneddau gweledol<br>**Nodyn i'r Ymgeisydd** |

Gyda golwg ar amod 2, fe'ch cynghorir i gysylltu â Swyddog Achos yr Adran Gynllunio cyn dechrau gwaith ar y safle i drafod union safle wyneb allanol waliau pen gorllewinol a dwyreiniol yr ychwanegiad. Ystyrir ei bod yn hanfodol codi'r waliau hyn yn ôl o linell waliau'r annedd bresennol er mwyn dangos pwysigrwydd yr adeilad gwreiddiol.

| | |
|---|---|
| 25/2009/1098/PF | Yn dilyn ystyriaeth i 1 llythyr sylwadau ychwanegol oddi wrth Gyngor Cymuned Nantglyn<br>Newid deunydd tir i ffurfio estyniad i gwrtil preswyl annedd a chodi gazebo ffrâm dderw o fewn i'r cwrt presennol<br>**Ysgubor Hendre Nantglyn Dinbych**<br>**CANIATÂD**<br>**Nodyn i'r Ymgeisydd**<br>Mae'r cynlluniau a gymeradwywyd yn diffinio cwmpas ffisegol y cwrtil preswyl ac ni ddylai unrhyw ran o'r tir padog i'r de / de ddwyrain gael ei ddefnyddio i'r diben hwnnw ar unrhyw bryd. |
| 42/2009/0641/PF | **SIARADWR YN ERBYN MR B EASTWELL**<br>Yn dilyn ystyriaeth o nodiadau ymweliad safle a gynhaliwyd ar 26ain Hydref 2009<br>Codi annedd sengl 4 ystafell wely (gwelliant i gynllun a gymeradwywyd eisoes o dan Rif Cod 42/2009/0031/PF drwy ychwanegu estyniad deulawr gyda tho ar oledd ar yr ochr)<br>**Tir y tu ôl i 25-35 cynhwysol Ffordd Llanelwy Dyserth Y Rhyl**<br>**CANIATÂD** |
| 45/2009/0409/PF | Gadawodd y Cynghorydd Selwyn Thomas y gadair yn ystod ystyriaeth i'r cais hwn a chymerwyd ei le gan y Cynghorydd R Bartley<br>Yn dilyn ystyriaeth i gynllun diwygiedig a gylchredwyd a llythyrau sylwadau ychwanegol oddi wrth Gyngor Tref y Rhyl, E Roose, Ffordd Brighton, Pennaeth Priffyrdd a Seilwaith<br>Dymchwel annedd ddeulawr a garej (63 Ffordd Brighton) gwelliannau i ganiatâd cynllunio sy'n bodoli (Rhif Cod 45/2008/0848/PF) ar gyfer newidiadau ac estyniadau a newid deunydd i gartref nyrsio (28 ystafell wely) ac ychwanegiadau ychwanegol yn y cefn i greu cartref nyrsio gyda 32 ystafell wely<br>**Tir yn 63 Ffordd Brighton and Chartref Gofal yn 71 Ffordd Y Rhyl**<br>**CANIATÂD** |
| 47/2009/1007/PF | Gadawodd y Cynghorydd Selwyn Thomas y gadair yn ystod ystyriaeth i'r cais hwn a chymerwyd ei le gan y Cynghorydd R Bartley.<br>Yn dilyn ystyriaeth i gywiriad i'r adroddiad - mae'r lleoliad yn Ardal Cymuned Bodelwyddan, nid Cymuned Tremeirchion a'r Waen<br>Codi estyniad un llawr a newidiadau i'r annedd<br>**Ysgol Isaf Waen Llanelwy**<br>**CANIATÂD** |

(i) Gwrthod

| **Rhif Cais** | **Disgrifiad a Lleoliad** |
|---|---|
| 01/2009/1102/PO | **SIARADWR O BLAID**<br>Mynegodd y Cynghorydd Cefyn Williams ddiddordeb yn y cais canlynol ac ni phleidleisiodd ar y cynnig<br>Datblygu 0.33 hectar o dir drwy godi 12 uned breswyl a chreu mynediad i gerbydau (cais amlinellol)<br>**Tir ger Derfel The Green Dinbych**<br>**GWRTHOD** |

46/2009/1025/AC

Gadawodd y Cynghorydd Selwyn Thomas y gadair yn ystod ystyriaeth i'r cais hwn a chymerwyd ei le gan y Cynghorydd R Bartley.
Yn dilyn ystyriaeth i nodiadau'r ymweliad safle a gynhaliwyd ar 26th Hydref 2009, llythyr sylwadau ychwanegol oddi wrth Gyngor Tref Llanelwy, Pennaeth Priffyrdd & Seilwaith, Pensaer Cadwraeth, G Grube a D Hodgkinson, Vermont, Ffordd Glascoed, Llanelwy.
Cyflwynwyd manylion mesurau rhybudd ar gyfer defnyddwyr y briffordd mewn perthynas â mynediad i mewn ac allan o'r lleoliad yn unol ag amod rhif 4 caniatâd cynllunio 43/2006/1097/PF
**Elwy Bank Stryd Fawr Llanelwy**
**GWRTHOD**
Cymerwyd y penderfyniad, a oedd yn GROES i Argymhelliad y Swyddogion am y rheswm canlynol:
Nid yw'r mesurau arfaethedig i dynnu sylw at y mynediad yn ddigonol i rybuddio pawb sy'n defnyddio'r briffordd o bresenoldeb mynediad i gerbydau. Mae hyn yn groes i Bolisi TRA 6 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych

**449 ADRODDIAD GORFODAETH**

ENF/2008/00054

Gadawodd y Cynghorydd Selwyn Thomas y gadair yn ystod ystyriaeth i'r cais hwn a chymerwyd ei le gan y Cynghorydd R Bartley.
Tir yn Lodge Farm, Ffordd yr Wyddgrug, Bodfari, Dinbych
Deunydd Preswyl Parhaol Anawdurdodedig o Garafán Statig ar Dir Amaethyddol

***PENDERFYNWYD*** *rhoi awdurdod i gyflwyno Rhybudd Gorfodi i roi terfyn ar y deunydd preswyl anawdurdodedig o'r garafán statig (6 mis i gydymffurfio).*

*Rhoi cychwyn ar ddwyn achos i erlyn unrhyw berson sydd wedi derbyn y Rhybudd ac sydd heb neu sy'n gwrthod cydymffurfio â darpariaethau'r Rhybudd.*

Terfynwyd y cyfarfod am 10.55am.

**********